**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT**

**(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 24 Hydref 2019** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.Mizen** |
| **Cynghorwyr**: | M.Crowley, S.apDafydd, S.Harris, J.Jones, D.Keogh, S.Miller, M.Protheroe, S.Renkes, A.J.Richards, D.Whitelock a/ac J.Hale |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | M.Caddick |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | C.Millis, A.Thomas, I.Guy, P.Walker, D.Holder-Phillips, M.Daley, J.Haeney, A.Herbert, H.Lewis, K.Jones, A.Spooner-Cleverly, C.Davies a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr P.A.Rees a A.J.Taylor |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 12 Medi 2019.

   Hyrwyddwr y Cymoedd

   Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau gan y pwyllgor ar gyfer rôl newydd Hyrwyddwr y Cymoedd. Gwirfoddololodd y Cynghorydd D Whitelock am y rôl.

2. **DERBYN UNRHYW DDATGANIADAU O FUDDIANT GAN AELODAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S ap Dafydd | Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig San Joseff ac Ysgol Bae Baglan. |
| M Caddick | Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am fod ganddi wyrion mewn ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot, ŵyr sy'n defnyddio cludiant ysgol, ac mae hi hefyd yn Llywodraethwr mewn ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot. |
| Y Cynghorydd M Crowley | Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr mewn ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot. |
| Y Cynghorydd S Harris | Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch  Derbyn i Ysgolion, am ei bod hi'n llywodraethwr mewn ysgol yn Ysgol Gynradd Creunant. |
| Y Cynghorydd J Jones | Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am fod |

ganddi wyrion mewn ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae hi hefyd yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Pen Afan.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Keogh | Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei bod hi'n llywodraethwr yn Ysgol Cwm Brombil. |
| Y Cynghorydd S Miller | Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am fod ganddi wyrion yn Ysgol Gynradd Melin ac mae hi hefyd yn Gadeirydd y Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Melin. |
| Y Cynghorydd R Mizen | Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Cwm Brombil ac Ysgol Gynradd Cwmafan. |
| Y Cynghorydd M Protheroe | Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Melin. |
| Y Cynghorydd P A Rees | Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Crynallt, |

| | |
|---|---|
| | ac mae ganddo wyres sy'n defnyddio cludiant ysgol. |
| Y Cynghorydd S Renkes | Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei bod hi'n llywodraethwr yn ysgolion cynradd Baglan a Blaen Baglan. |
| Y Cynghorydd S Renkes | Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gwaencaegurwen. |
| Y Cynghorydd S Renkes | Parthed: Eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Eastern ac mae ganddo blant yn Ysgol Cwm Brombil. |
| Y Cynghorydd S Renkes | Parthed: Eitem 4 papurau'r Cabinet ynghylch y weithdrefn Apeliadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ac eitem 4 papurau'r Pwyllgor Craffu ynghylch Derbyn i Ysgolion, am fod ganddo wyrion mewn ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n defnyddio cludiant ysgol ac mae ef hefyd yn llywodraethwr yn Ysgol Cwm Brombil. |

## 3. <u>COFNODION GRWP CYNGHORWYR CRAFFU EIN RHANBARTH AR WAITH (ERW)</u>

Roedd y pwyllgor yn falch o nodi bod yr aelodau a enwebwyd o Gastell-nedd Port Talbot wedi dod i bob cyfarfod y gwahoddwyd hwy iddynt, ac roeddent yn darparu her.

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 3 Mehefin, 2019.

4. **DERBYN I YSGOLION**

Derbyniodd aelodau wybodaeth a data mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion Castell-nedd Port Talbot, ac roeddent yn falch o nodi bod pob plentyn a oedd wedi gwneud cais am le mewn ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi derbyn lle.

Roedd cyfanswm o 925 o ddisgyblion wedi symud, yn dilyn ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn yn 2018/19. Holodd aelodau a oedd pob disgybl a drosglwyddwyd wedi'i ail-leoli'n llwyddiannus ac yn unol â'i ddewis cyntaf. Esboniodd swyddogion nad oedd pawb wedi cael ei ddewis cyntaf; roedd rhai wedi cael eu hail ddewis, a rhai wedi aros yn eu hysgol wreiddiol, neu wedi dewis apelio yn erbyn y penderfyniad.

Trafodwyd yr ysgol newydd yn ardal Coed D’Arcy, a nodwyd nad oedd wedi'i ddynodi eto yn ysgol Gymraeg neu Saesneg. Disgwylid grantiau cyfalaf ar gyfer ysgolion Cymraeg yn yr ychydig flynyddoedd nesaf a fyddai'n lliniaru'r pwysau presennol ar yr ysgolion Cymraeg sy'n bod. Gobeithiwyd y byddai'r ysgol newydd yng Nghoed D'Arcy yn cael ei hadeiladu yn 2021 - byddai'r ffigurau derbyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad yn dilyn yr agoriad.

Holodd aelodau ynghylch pa gefnogaeth a oedd ar gael ar gyfer y broses apeliadau, gan nodi bod y weithdrefn apeliadau wedi'i nodi'n glir i rieni sy'n dewis apelio, a bod gwybodaeth hefyd ar gael gan swyddogion addysg a chyfreithiol.

Trafodwyd nifer uchel y disgyblion yn ysgol gyfun Dŵr y Felin, a nododd aelodau bod ffactorau amrywiol yn dylanwadu ar lle y lleolir plant, gan gynnwys dewis rhieni, brodyr a chwiorydd yn yr un ysgol, y broses apeliadau ac agosrwydd y cartrefi plant sy'n derbyn gofal.

Trafodwyd cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd ysgolion lleol yn llawn - gellid newid dalgylchoedd, gellid ehangu ysgolion, a byddai'r ysgol newydd yng Nghoed D’Arcy yn cael ei hystyried.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

5. **DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA BWRDD Y CABINET AR GYFER CRAFFU CYN PENDERFYNU (AMGAEIR ADRODDIADAU BWRDD Y CABINET AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Gweithdrefn Apeliadau Cymorth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Tynnodd swyddogion sylw at wall teipio ar dudalen 14 papurau bwrdd y Cabinet ynghylch Grŵp Trafnidiaeth y cyngor. Roedd y ffigurau sy'n ymwneud â chyfansoddiad y grŵp yn anghywir, a byddent yn cael eu diwygio cyn eu rhoi ar waith.

Eglurwyd ail gam newydd y broses apeliadau. Nododd aelodau, er y byddai'n cynyddu llwyth gwaith swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg, roedd swyddogion yno i helpu teuluoedd.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Blynyddol am Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Nodwyd y swm mawr o waith a oedd ynghlwm wrth nodi pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET). Roedd y ffigurau o flaen yr aelodau'n dryloyw iawn.

Gofynnodd aelodau a fyddai modd labelu graffiau'n gliriach ar adroddiadau dilynol.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Cwricwlwm i Gymru 2022 - Cyflwyniad

Derbyniodd aelodau gyflwyniad ar y cwricwlwm newydd a fyddai'n cael ei gyflwyno yng Nghymru o 2022. Nodwyd y byddai pob ysgol yn dylunio'i gwricwlwm ei hun a fyddai'n addas i'r gymuned lle'r oedd yr ysgol. Roedd Grŵp Cynghori ar y Cwricwlwm wedi'i sefydlu yng Nghastell-nedd Port Talbot â'r diben o gynghori ysgolion ar ymdrin â'r gofynion sy'n hynod wahanol.

Nid oedd yn glir eto beth fyddai'r man gorffen - ac a fyddai TGAU yn dal i fodoli ac yn y blaen. Fodd bynnag, byddai angen newid y strwythur arholiadau, gan y byddai'r addysgu yn newid. Roedd cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y cynigion na fyddai'r posibilrwydd o newid Llywodraeth yn San Steffan yn effeithio arnynt.

Byddai cydweithredu rhwng athrawon ar draws ysgolion gwahanol yn cael ei annog i ehangu'r sylfaen wybodaeth, yn lle'r dull traddodiadol o fynd ar gwrs. Roedd arian dysgu proffesiynol ar gael o hyd fesul aelod o staff, os bydd ysgolion yn dal i deimlo bod cyrsiau'n fuddiol.

Nodwyd y byddai cwricwlwm disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) hefyd yn newid - byddai'r newid hwn yn cael ei gyflwyno yn y diweddariad ADY blynyddol, yn ogystal â mewn seminar i aelodau ar ddiwygiadau ADY a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror 2020.

Yn dilyn craffu, nodwyd y cyflwyniad.

6. **<u>BLAENRAGLEN WAITH 2018-19</u>**

Trafodwyd ymweliadau safle ar gyfer aelodau'r pwyllgor i Ysgol Bae Baglan ac Ysgol Bro Dur. Byddai'r Swyddog Craffu yn cysylltu ag aelodau i drefnu hyn.

Nododd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

**CADEIRYDD**